



Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

mewn perthynas â Phlentyn A

CYSUR 4/2017

Dyddiad cymeradwyo'r adroddiad gan y Bwrdd:

25 Ionawr 2018.

Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig Parthed:
CYSUR 4/2017**

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

Y cyd-destun cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*¹ a'r canllawiau cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyf 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*² (Llywodraeth Cymru, 2016).

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan adran 3.12 o'r canllawiau, sef fel a ganlyn:

Rhaid i fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- Wedi marw; neu
- Wedi cael anaf parhaus a allai beryglu ei fywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac** roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys unigolyn sydd wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed ond a oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cynt –
- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- Y dyddiad y mae awdurdod lleol (ALI), neu bartner perthnasol,³ yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i iechyd a datblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*⁴.

Diben cyffredinol y system adolygu yw hybu diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu amlasiantaethol mewn perthynas ag amddiffyn plant mewn ardaloedd lleol, y mae byrddau diogelu rhanbarthol ac asiantaethau partner yn gyfrifol amdanynt. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n gosod sylfaen ar gyfer dysgu ar y cyd i weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ac, o dan yr amgylchiadau hynny pan fo angen adolygiad mwy ffurfiol pan fo digwyddiadau difrifol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, mae system amlasiantaeth, cryno ac estynedig o Adolygiadau Ymarfer Plant ar gael. Disgwylir i allbynnau'r newidiadau hyn gynhyrchu dysgu newydd a all gefnogi gwelliant parhaus mewn ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig hwn yn **Atodiad 1**.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

² [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#) – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

³ Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o *Ddeddf Plant 2004* neu gorff y cyfeirir ato yn adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002*.

⁴ [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

Yr amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

Roedd Plentyn A yn unigolyn ifanc 17 oed a oedd yng ngofal yr awdurdod lleol o dan adran 20 o *Ddeddf Plant 1989*⁵, pan laddodd ei hun dri mis yn unig cyn ei ben-blwydd yn 18 oed. Ar adeg ei farwolaeth, roedd Plentyn A yn byw gyda'i ofalwyr maeth lle'r oedd wedi bod ers bron i bedair blynedd. Lleoliad maeth annibynnol wedi'i gomisiynu oedd hwn. Yn y cyfnod yn arwain at ei ddyddiau olaf, roedd Plentyn A wedi profi lefel uchel o ansicrwydd ynghylch cynllun ei lwybr tuag at annibyniaeth a dangosodd bryderon sylweddol am yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl iddo gael ei ben-blwydd yn 18 oed.

Fel adolygiad ymarfer estynedig, mae'r dysgu'n canolbwyntio ar ddwy flynedd olaf bywyd Plentyn A o'r adeg y trosglwyddwyd y cynllunio gofal ar gyfer Plentyn A i'r tîm gofal cymdeithasol plant 16 oed a hŷn. Fodd bynnag, er mwyn gwneud synnwyr o effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth amlasiantaethol, mae'n hanfodol deall cyd-destun bywyd Plentyn A cyn 16 oed.

Hanes teulu a chyd-destun Plentyn A

Rhodddwyd Plentyn A yng ngofal yr ALI⁶ o ddwy flwydd oed ymlaen o ganlyniad i gam-drin ac esgeulustod corfforol ac emosiynol difrifol. Rhodddwyd cyfrifoldeb rhiant cyfreithiol i'r ALI a rhodddwyd Plentyn A mewn gofal maeth. Tra'r oedd o dan yr achosion llys, cafodd Plentyn A ddiagnosis o anhwylder ymlyniad a datgelodd asesiadau fod Plentyn A wedi profi cam-drin ac esgeulustod sylweddol. Disgrifiwyd ei ymddygiad o oedran ifanc iawn fel ymosodol a heriol iawn – roedd yn amlwg yn blentyn cythryblus iawn a gafodd ddechrau eithriadol o wael mewn bywyd.

Fel gofalwyr maeth profiadol, roedd Mr a Mrs A wedi ymrwmo i geisio rhoi sefydlogrwydd i Blentyn A. Fodd bynnag, roedd llawer o bryderon o fewn y grŵp proffesiynol a chan Mr a Mrs A eu hunain ynghylch eu haddasrwydd fel rhieni parhaol sy'n mabwysiadu ar gyfer Plentyn A.

Er gwaethaf y pryderon, yr anghytundebau a'r heriau hyn, ar 5 Tachwedd 2003 rhoddodd y llys orchymyn mabwysiadu a daeth Mr a Mrs A yn rhieni cyfreithiol i Blentyn A. Rhodddwyd cynllun cymorth mabwysiadu ar waith ac roedd yn cynnwys cymorth ariannol. Roedd y gwaith o geisio ymyrraeth therapiwtig yn barhaus.

Erbyn i Blentyn A fod yn naw oed roedd wedi'i asesu fel un na allai ymdopi mewn lleoliad ysgol prif ffrwd. Nodwyd bod ganddo rai⁷ ymddygiadau ADHD, roedd datganiad o anghenion addysgol wedi'i wneud ac roedd pryderon yn parhau ynghylch effaith y diagnosis o anhwylder ymlyniad. Erbyn deg oed roedd sefyllfa'r teulu wedi chwalu, ac roedd Plentyn A wedi cael llety gan yr ALI o dan adran 20, gyda chyfrifoldeb rhiant yn parhau drwy gydol ei oes gyda'r rhieni sy'n mabwysiadu, a oedd yn teimlo eu bod wedi siomi Plentyn A.

Er mwyn deall y ffordd orau o ddiwallu anghenion hirdymor Plentyn A, gwnaeth yr ALI fuddsoddiad sylweddol a chomisiynodd asesiad manwl cyfannol trwy asiantaeth cymorth mabwysiadu annibynnol. Nod yr asesiad hwn oedd dod o hyd i lwybr trwy ofal a oedd yn addas ar gyfer Plentyn A.

Roedd yr asesiad hwn o ansawdd uchel a gwnaeth argymhellion ansoddol a diriaethol ynghylch:

- pwysigrwydd cael lleoliad sefydlog a sicrhau'r cymorth cywir i'r gofalwyr fel y gall Plentyn A gysylltu â'i ofalwyr maeth
- yr angen i wneud penderfyniadau sylweddol a chynllunio gofal da er mwyn ystyried y cyd-destun hanesyddol
- yr angen am asesiad seiciatrig parhaus i ddeall unrhyw ddryswch sylfaenol, gan gynnwys y risg yr oedd Plentyn A yn ei beri iddo'i hun ac i eraill

⁵ [Adran 20](#) o *Ddeddf Plant 1989*

⁶ ALI (Awdurdod Lleol)

⁷ ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd)

- therapi i Blentyn A oedd yn gyfeiriol o ran arddull ac yn cychwyn ar unwaith.

Pan oedd tua 13 oed, roedd Plentyn A yn cael therapi a barodd am gyfnod o tua 18 mis. Cafodd gefnogaeth drwy gydol yr amser hwn gan y tîm o'i gwmpas o'r asiantaeth gofal maeth annibynnol a'i ofalwyr. Drwy gydol cyfnodau olaf bywyd Plentyn A, roedd yn cael gofal gan ofalwyr maeth cefnogol dros ben a wnaeth ymrwymo'n sylweddol iddo fel eu mab maeth. Fel rhieni plant sydd wedi dod i oed, roedd gan y gofalwyr ddealltwriaeth ddofn o'r heriau o fod yn unigolyn yn ei ardegau a'r adegau caled oedd o'i flaen wrth i Blentyn A dyfu'n oedolyn. Roedd yr adolygiad yn hyderus bod Plentyn A yn teimlo ei fod yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi tra'r oedd yn y lleoliad hwn.

Dysgu ar lefel Ymarfer a Sefydliad

Treuliodd Plentyn A naw o'i 17 mlynedd yng ngofal yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn golygu bod bywyd Plentyn A wedi'i ddogfennu'n dda, a phrofodd ystod eang o asesiadau wrth iddo fynd drwy bob cam datblygiad plentyn. Parhaodd ei statws llety adran 20 heb ei herio drwy gydol ei brofiad yn y system ofal fel y dangosir isod:

- 0 i dair oed gyda'i rieni biolegol
- Tair i chwech oed – cafodd ei faethu (Mr a Mrs A yn rhieni maeth iddo)
- Chwech i ddeg oed – wedi'i fabwysiadu (Mr a Mrs A yn rhieni cyfreithlon iddo)
- Deg i 17 oed – mewn gofal maeth

Ar adeg ysgrifennu'r adolygiad hwn, roedd gwasanaethau plant yr awdurdod lleol wedi derbyn arolygiad ⁸AGGCC a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2017; archwiliodd yr adroddiad arolygu ei hun ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau plant a chanfuwyd:

'Tystiolaeth o gyfleoedd a gollwyd i ddiogelu plant, er gwaethaf ceisiadau am gymorth. Nid oedd risgiau'n cael eu hasesu'n briodol ac yn gadarn ac nid oes system effeithiol i nodi a rheoli risgiau.'

'Mae problemau perfformiad difrifol gan y gwasanaethau rheng flaen, ond cododd y rhain oherwydd ansefydlogrwydd rheoli, cyfeiriad gwael a dryslyd a llywodraethu gwan. Heb gefnogaeth a gallu effeithiol i wneud y gwaith, ni ellir disgwyl i staff rheng flaen wneud y gwaith cymhleth sydd ei angen yn y gwasanaethau cymdeithasol i blant.'

Roedd y cyd-destun hwn, ynghyd â newidiadau sylweddol o fewn arweinyddiaeth yr awdurdod lleol trwy gydol oes yr adolygiad, yn heriol ac, yn aml, nid oedd gwybodaeth ar gael ac roedd perchnogaeth o'r broses yn gyfyng nes bod y tîm arweinyddiaeth diweddaraf wedi'i sefydlu.

O ystyried y cyd-destun uchod, caniatodd proses y digwyddiad dysgu ei hun i weithwyr proffesiynol a gofalwyr olrhain bywyd Plentyn A wrth iddo baratoi ar gyfer annibyniaeth ac, wrth wneud hynny, archwilio'r meysydd a ganlyn:

- Pa mor effeithiol oedd yr asesiadau trwy gydol oes Plentyn A o ran darparu gofal ac amddiffyniad diogel iddo wrth iddo ddod yn oedolyn?
- Pa mor effeithiol a chadarn oedd y cynllunio gofal a'r gwaith partneriaeth wrth i'w fregusrwydd ddatblygu?
- Beth oedd amllder, cysondeb ac ansawdd y goruchwyliaeth ar gyfer staff y rheng flaen fel bod y staff gwaith cymdeithasol (gan gynnwys y cynghorydd personol) yn cael eu cefnogi i barhau i ganolbwyntio ar gyflawni deilliannau da, gan ystyried yr holl wybodaeth a hanes perthnasol fel bod y plentyn yn cael ei weld yng nghyd-destun ei brofiad bywyd?

⁸ AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)

- Sut y gwelwyd tystiolaeth o atebolrwydd rheolwyr ar draws y bartneriaeth wrth ddatblygu cynlluniau pobl ifanc, sicrhau'r fframwaith cyfreithiol priodol ar gyfer gofal ac wrth adolygu effaith yr asesiadau penodol a gynhaliwyd?
- Pa mor effeithiol oedd y fframwaith sicrhau ansawdd o ran hysbysu partneriaid o ba mor dda yr oeddent yn ei wneud i amddiffyn plant mewn perygl, plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion?
- Pa mor effeithiol oedd y grŵp proffesiynol o ran rheoli perthnasoedd cymhleth a heriol gyda rhieni a gofalwyr wrth ganolbwyntio ar y penderfyniadau gorau ar gyfer Plentyn A?
- Sut gwnaeth llais Plentyn A ddylanwadu ar benderfyniadau ar ei fywyd gan ystyried dymuniadau, teimladau, gobeithion, ofnau a gorbryder?
- Pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth adolygu annibynnol o ran bod yn warcheidwad arferion da ar draws gofal cymdeithasol plant a'r bartneriaeth i sicrhau'r deilliannau gorau oll a bod llais Plentyn A wedi dylanwadu ar ei gynllun gofal?
- Pa mor effeithiol oedd yr ALL o ran rheoli gwasanaethau maethu a gomisiynwyd mewn perthynas â chyflawni cynllunio gofal cadarnhaol?

Gweithio mewn partneriaeth

Hyd at 16 oed roedd gan Blentyn A weithiwr cymdeithasol cyson, roedd ei Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyson drwy gydol ei amser mewn gofal maeth o ddeg oed ac roedd y rheolaeth llinell yn gymharol sefydlog. Roedd hyn i gyd yn gyfle da i ddeall yn iawn yr heriau yr oedd Plentyn A a'i ofalwyr yn eu hwynebu. Roedd gweithiwr cymdeithasol yr asiantaeth gofal maeth annibynnol a'r therapydd rhianta tîm hefyd yn ffigyrau cyson ar gyfer Plentyn A. Mae gan un lun o dîm bach wedi'i lapio o amgylch ei gynllun gofal gyda therapydd a oedd yn ei le am ychydig llai na dwy flynedd.

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai'r her fwyaf arwyddocaol oedd yr un symlaf, sef cyfathrebu da a chynllunio cydlynol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o brofiadau bywyd beunyddiol Plentyn A ac effaith sylweddol trawma plentyndod cynnar difrifol. Yn y bôn, roedd digonedd o gyfleoedd i weithwyr proffesiynol ddeall sut deimlad oedd bod yn Blentyn A, yn enwedig wrth iddo symud tuag at ei oedran annibyniaeth cronolegol.

Dysgu: Mae cyfathrebu a chynllunio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn elfen hanfodol o waith amlasiantaeth da.

Dywedodd Plentyn A yn gyson wrth yr holl weithwyr proffesiynol o'i gwmpas pa mor ofnus yr oedd ynghylch gadael gofal, ei deimlad nad oedd yn barod, ac roedd yn orbryderus iawn am fod mewn sefyllfa lle nad oedd e o dan reolaeth ac nad oedd ganddo ffyrdd i ddatrys y sefyllfa. Mae'n ymddangos bod pob asiantaeth y tu allan i'r awdurdod lleol wedi disgwyl i'r llall i ddod o hyd i'r datrysiadau, ond anwybyddwyd rhywbeth hynod bwysig, sef yr angen i ddatrys gwahaniaethau proffesiynol gyda'r awdurdod lleol er mwyn ei ddwyn i gyfrif a galw arno i weithredu er mwyn sicrhau bod gan Plentyn A y cynllun llwybr cadarnhaol, digonol ac effeithiol yr oedd ei angen arno i'w alluogi i ddod yn oedolyn llwyddiannus. Roedd hyn wedi'i gymhlethu gan y cyfle a gollwyd gan wasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol i sicrhau herio a chraffu lle'r oedd tystiolaeth o gynllunio gofal o ansawdd gwael ac i uwchgyfeirio pryderon i lefel uwch. Collwyd y cyfle i herio cynnydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt a'u huwchgyfeirio er mwyn eu datrys. O ystyried bod angen i'r ALL ddatblygu cynllun i alluogi plant sy'n derbyn gofal sy'n agored i niwed i aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed, fel sy'n ofynnol yn ôl *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, Rhan 6, Cod Ymarfer (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya)⁹.

⁹ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, [Rhan 6 Cod Ymarfer](#) (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya), (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2016)

Dysgu: Byddai proses ddatrys broffesiynol yn osgoi gadael i bethau lithro ac oedi wrth gynllunio gofal.

Roedd heriau sylweddol i'r gweithwyr proffesiynol o ran ceisio diwallu anghenion Plentyn A, yr effeithiwyd arnynt gan y cyfathrebu â rhieni a oedd wedi mabwysiadu Plentyn A, a oedd yn hynod orbryderus i weld eu mab yn cael y cymorth yr oedd ei angen arno yn eu tyb hwy. Roedd hyn yn golygu bod yna berthynas bigog ar adegau rhwng y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol. Ar adegau, arweiniodd hyn at ganfyddiad proffesiynol bod Mr a Mrs A yn bobl anodd, gan anwybyddu lefel dealladwy eu pryder am eu mab.

Dysgu: Mae angen i weithwyr proffesiynol deimlo'n hyderus wrth weithio gyda rhieni sy'n cael eu hystyried yn heriol a bod yn fwy empathig wrth weithio gyda theuluoedd.

O fewn y grŵp proffesiynol mae rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ased arbennig i'r partneriaethau proffesiynol wrth eu cynorthwyo i wneud yr hyn sy'n iawn i blant mewn gofal, trwy herio a chraffu ar gynllunio gofal. Cynhaliodd Plentyn A berthynas dda â'i Swyddog Adolygu Annibynnol a allai fod wedi bod yn gyfle hollbwysig i'r broses adolygu sicrhau y gallai aros mewn lleoliad estynedig ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed. Ymddengys nad oedd y gweithwyr proffesiynol yn deall yr egwyddorion yn iawn a oedd yn sail i'r arfer newydd: "Pan Fydda i'n Barod"¹⁰ a oedd yn hybu'r cyfleoedd i blant mewn gofal aros yn eu lleoliad. Oherwydd hyn collwyd cyfle i fod yn greadigol am lwybr Plentyn A i fod yn oedolyn, a llunio cynllun a fyddai'n tawelu ei bryderon cynyddol.

Dysgu: Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol feddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau a deddfwriaeth newydd a'u galluogi i feddwl yn greadigol am gynllunio gyda phlant mewn gofal ac ar eu cyfer.

Arfer effeithiol

Cynhaliwyd llawer o asesiadau o ansawdd da ar wahanol gamau ym mywyd Plentyn A ac un o'r rhai mwyaf arwyddocaol oedd yr asesiad a gynhaliwyd gan yr asiantaeth cymorth mabwysiadu annibynnol, Family Futures. Cynigiodd yr asesiad hwn gyfle i'r ALI, ac asiantaethau partner eraill, bwysu a mesur a ffurfio tîm cydlynol agos o amgylch Plentyn A, wrth iddo ddechrau ar ail gyfnod maethu arwyddocaol ei fywyd.

Roedd gofal maeth Plentyn A yn cael ei ddarparu drwy drefniadau a gomisiynwyd o ddeg oed ymlaen. Roedd yr asiantaeth a gomisiynwyd yn adnabod Plentyn A a hanes ei fywyd, ac roedd gan ei ofalwyr maeth feddwl mawr ohonynt. Roeddent yn cynnig cymorth sylweddol a sefydlogrwydd i'r gofalwyr ac yn ceisio paru lleoliadau.

Dangosodd y gofalwyr maeth wir ymrwymiad i Blentyn A a dealltwriaeth ddofn o'i brofiad bywyd beunyddiol.

Roedd gwasanaeth eirioli'r bobl ifanc mewn sefyllfa eithriadol o dda i ymyrryd a galluogi'r grŵp amlasiantaeth i glywed barn Plentyn A a gweithredu arni. Gwnaethant hynny'n effeithiol mewn perthynas â datganiad addysg ôl-16 Plentyn A.

Cafodd Plentyn A gyfanswm o 51 o sesiynau therapiwtig a chymerodd ran gadarnhaol mewn 47 ohonynt. Darparwyd y sesiynau hyn gan therapydd hyfforddedig a phrofiadol tu hwnt.

¹⁰ [Pan Fydda i'n Barod](#) – Canllaw Arfer Da (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016)

Cynllunio'r cyfnod pontio

Arweiniodd y cyfle a gollwyd ar gyfer cynllunio ar y cyd o fewn yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal¹¹ cyn, ac ar ôl, 16 oed, at ddatgysylltiad rhwng cynllun gofal a oedd yn cadw llygad ar y dyfodol ac a oedd yn cael ei lywio gan brofiad bywyd beunyddiol Plentyn A o ofal maeth ac ansefydlogrwydd addysg. Arweiniodd ymagwedd y tîm 16 oed a hŷn at sgiliau ymarferol ar gyfer byw'n annibynnol gan ystyried oedran cronolegol, heb ystyriaeth ddyledus i anghenion addysgu arbennig ac anabledau¹² Plentyn A, at ddiffyg dealltwriaeth o'r effaith a gafodd ei ofal a'i brofiadau bywyd cynnar ar ei weithrediad gwybyddol, emosïynol ac addysgol a'i bryder cymesur ynghylch gadael y system ofal.

Dysgu: Cynllunio llwybr ar gyfer pobl ifanc mewn gofal i ystyried eu hanghenion cyfannol, gwydnwch emosïynol a gallu dysgu sydd i gyd yn elfennau allweddol o gynllunio da gyda chyfleoedd clir i glywed pryderon plentyn ac ystyried datrysiadau creadigol y tu hwnt i lwybrau traddodiadol i annibyniaeth.

Penderfyniadau'r tîm rheoli

Roedd y cofnodion gwaith cymdeithasol yn dangos bod Plentyn A wedi cael ei weld yn rheolaidd ac o fewn yr amserlenni perthnasol. Fodd bynnag, oherwydd goruchwyliaeth annigonol barhaus gan reolwyr o fewn y gwasanaeth gwaith cymdeithasol plant, yn enwedig o ran cynllunio pontio, bu dirywiad amlwg mewn ymarfer proffesiynol.

Er bod dull rhianta tîm yr asiantaeth gofal maeth annibynnol yn arbennig o gryf, arweiniodd cyfranogiad anghyson partneriaid allweddol at rolau proffesiynol ac atebolrwydd aneglur. Er bod yr ymarfer yn llawn bwriadau da, colodd y cyfle i gyflawni deilliannau mwy cadarnhaol ar gyfer Plentyn A. Mae hyn yn amlygu'r angen i ddatrys problemau wrth eu gwraidd a gweithredu arferion uwchgyfeirio effeithiol pan fydd gwahaniaethau proffesiynol yn parhau.

Gallai gweithredu goruchwyliaeth ddiogelu ar gyfer asiantaethau partner fod wedi gwella rhianta corfforaethol a gwella'r broses broffesiynol o uwchgyfeirio risgiau.

Dysgu: Mae arferion goruchwyllo da a goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr yn osgoi gadael i bethau lithro ac oedi wrth gynllunio gofal, gan gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo arfer proffesiynol da.

Datrys / herio gwahaniaeth proffesiynol

Roedd y dryswch ar draws y bartneriaeth ynghylch rôl statudol gweithiwr cymdeithasol yr ALI ar gyfer plant mewn gofal yn golygu ar adegau fod diffyg atebolrwydd gan ddull cadarnhaol y tîm amlasiantaeth o ymdrin â chynllun gofal Plentyn A, dan arweiniad yr asiantaeth faethu, gan fod effaith herio gan y bartneriaeth wedi'i danseilio gan ddiffyg proses briodol i ddatrys gwahaniaethau proffesiynol.

Dysgu: Rhaid cryfhau rôl statudol y Swyddog Adolygu Annibynnol fel bod pob gweithiwr proffesiynol yn cael ei ddwyn i gyfrif er mwyn sicrhau deilliannau da i blant mewn gofal. Mae polisi datrys problemau a gaiff ei fonitro gan yr uwch-dîm arwain yn ffurfioli her broffesiynol.

¹¹ PDG (Plentyn sy'n Derbyn Gofal - LAC yn Saesneg)

¹² AAAA (Asesiad Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau - SEND yn Saesneg)

Hyfforddiant a datblygu'r gweithlu

Ar draws y bartneriaeth aml-asiantaeth ac o fewn yr awdurdod lleol roedd yn ymddangos bod dryswch ynghylch egwyddorion sylfaenol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a oedd newydd gael ei lansio a'r pwysigrwydd i bobl ifanc mewn sefyllfa debyg i Plentyn A gael eu hystyried yn gymwys i barhau yn eu lleoliad maeth ar ôl 18 oed'.

Roedd digonedd o gyfleoedd i rannu doethineb ymarfer ac arbenigedd proffesiynol a oedd wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau ymarfer ar draws y tîm amlddisgyblaethol. Pe bai'r tîm proffesiynol o amgylch Plentyn A wedi'i arfogi â'r wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion, gallai gwell dealltwriaeth o'r opsiynau gofal ar gyfer Plentyn A fod wedi bod ar waith ac efallai y byddai wedi osgoi rhai o'r diffygion proffesiynol a fu mewn arferion da.

Dysgu: Mae angen i systemau a strwythurau fod yn eu lle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob gweithiwr proffesiynol o ran canllawiau ymarfer newydd, ochr yn ochr â'r angen i bob gweithiwr proffesiynol gael gwell dealltwriaeth o ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gwaith cymdeithasol plant.

Llais a chyfranogiad y plentyn

Cyflwynodd Plentyn A ei farn am fyw'n annibynnol yn huawdl iawn, ar lafar a thrwy ei ymddygiad. Gofynnodd a oedd y cyfreithiau yng Nghymru wedi newid a mynegodd ei bryderon cynyddol ynghylch peidio â bod yn barod i adael gofal. Fodd bynnag, roedd y grŵp proffesiynol yn ymddangos yn ddi-rym o ran dylanwadu ar benderfyniadau a fyddai'n galluogi ymagwedd gam wrth gam wrth bontio i fod yn oedolyn. O ran Plentyn A, bu diffyg arfer proffesiynol sylweddol o fewn y tîm o'i gwmpas.

Dysgu: Mae eglurder ynghylch sut y gall pobl ifanc mewn gofal ddylanwadu ar benderfyniadau ar eu cynllun a gofal dydd i ddydd yn hanfodol er mwyn hybu annibyniaeth.

Dysgu: Nid yw adiladrodd yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud gyfystyr â'u galluogi i gyfathrebu'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Gwella systemau ac ymarfer

Roedd llawer o gymorth a chefnogaeth wedi'u darparu i Blentyn A gan yr holl weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'i fywyd. Serch hynny, ni chafodd ei daith drwy ofal, a'r digwyddiadau arwyddocaol a oedd wedi'u dogfennu'n dda, eu hystyried yn effeithiol gan weithwyr proffesiynol wrth gynllunio gofal/llwybr ar ei gyfer. Arweiniodd hyn at ddiffyg asesiadau o anghenion ar sail tystiolaeth a chynlluniau llwybr o 16 oed ymlaen, gan gynnwys cyngor a chyfarwyddyd cyfreithiol annigonol ynghylch statws gadael gofal Plentyn A. Mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cydnabod fel gwelliannau sylweddol mewn arferion a systemau:

1. Cynllunio'r cyfnod pontio

Ymarferwyr:

- Hyfforddiant staff amlasiantaeth ar gynllunio llwybr CAMPUS¹³ yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, 'Pan Fydda i'n Barod – Canllaw Arfer Da'.
- Bydd staff yr awdurdodau lleol yn cael model asesu gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn nodi risgiau, cryfderau a chyfleoedd er mwyn llywio cynllunio gofal.
- Hyfforddiant gan yr awdurdod lleol i ymarferwyr ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer plant mewn gofal, yn enwedig pan fo amhariad yn amlwg neu pan nad yw'r ALI yn rhannu cyfrifoldeb rhiant.
- Dylai pobl ifanc gymryd rhan yn narparu hyfforddiant a sicrhau ansawdd.

Rheolwyr:

- Bydd yr awdurdod lleol yn datblygu a gweithredu systemau rheoli i gefnogi cynllunio llwybr CAMPUS yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, 'Pan Fydda i'n Barod' – Canllaw Arfer Da'.
- Bydd yr awdurdod lleol yn cynhyrchu canllawiau arfer da i sicrhau bod goruchwyliaeth sylwgar yr ymarferwyr wedi'i seilio ar her uchel a chymorth uchel.
- Rhaid i reolwyr o fewn yr awdurdod lleol ddangos tystiolaeth o her y Swyddog Adolygu Annibynnol i bob partner er mwyn cyflawni deilliannau da i blant mewn gofal.

2. Uwchgyfeirio a herio

Sicrhau ansawdd:

- Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal archwiliad o effeithiolrwydd goruchwyllo.
- Gweithredu dull i gasglu sicrwydd ansawdd y Swyddog Adolygu Annibynnol a chraffu ar gynllunio gofal i lywio rhianta corfforaethol da.
- Defnyddio gwybodaeth am berfformiad sy'n olrhain deilliannau da i blant gyda data gwell i'w dosbarthu ar lefel rhanbarthol i gynorthwyo gyda her allanol.
- Gweithredu dull sicrwydd ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynir.

3. Rhianta corfforaethol

- Yr angen i ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad amlasiantaeth sy'n olrhain deilliannau da i blant o fewn yr awdurdod lleol ac ar draws y partneriaethau amlasiantaeth.
- Dull sicrwydd yn ei le i fonitro effeithiolrwydd y polisi datrys gwahaniaethau proffesiynol.

4. Cymryd rhan a llais y plentyn

- Adolygiad o effeithiolrwydd y gwasanaeth a gomisiynir ar lefel rhanbarth i eirioli dros blant mewn gofal.
- Pob asiantaeth i roi sicrwydd i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch sut mae llais y plentyn yn dylanwadu ar ei gallu i sicrhau deilliannau da i blant mewn gofal gan ystyried profiad bywyd y plentyn.
- Mae angen ystyried gwerth cynnwys plant a phobl ifanc wrth gyflwyno hyfforddiant ac wrth gymryd rhan weithredol mewn arferion sicrhau ansawdd ar draws yr holl asiantaethau.

Er mwyn deall profiadau Plentyn A fel person ifanc sy'n gadael gofal ac sy'n paratoi i bontio i fod yn oedolyn, cafodd y ddau adolygydd gyfle i gwrdd â grŵp presennol o bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal neu a oedd yn y broses o'i adael. Roedd y grŵp hwn o bobl ifanc i gyd tua'r un oed â Phlentyn A. Roedd yn fraint i'r adolygwyr gael y cyfle hwn gyda grŵp cymysg rhwng 18 a 21 oed, pob un ohonynt â'u heriau a'u profiadau eu hunain.

Roedd y broses grŵp yn dilyn trafodaeth agored rugl a deinamig am eu profiadau o'r canlynol:

- Effeithiolrwydd cynllunio llwybr a dod yn annibynnol.
- Beth sy'n helpu a beth sy'n rhwystro.

¹³ CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol - SMART neu Specific, Measurable, Achievable, Realistic, Timely yn Saesneg)

CYSUR 4/2017 Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

- Pa wersi maent yn credu eu bod wedi'u dysgu a'r hyn roeddent yn dymuno i'r gweithwyr proffesiynol ei ddysgu.

Soniodd yr holl bobl ifanc am eu hofn llwyr o adael gofal a chael eu torri'n rhydd, a'r angen i ofalwyr gofio eu rhianta, fel y byddent yn rhianta eu plant eu hunain, i ofalu amdanynt a gofalu amdanynt ddigon i'w herio.

Roeddent i gyd yn cytuno bod rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn bwysig iawn iddynt. Cawsant brofiadau amrywiol o ran eu Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r peth mwyaf amlwg ar ôl ystyried y cyfan oedd y ffaith mai'r Swyddog Adolygu Annibynnol oedd yr unigolyn mwyaf cyson yn eu bywydau pan oedd pawb yn newid am ryw reswm neu'i gilydd (newid gweithiwr cymdeithasol, ysgol neu leoliad). Soniodd pob un ohonynt am brofiadau pan oedd eu Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi dwyn eraill i gyfrif ac yn eu hatal rhag gadael pethau i lithro ar adegau.

Mae un o'r bobl ifanc yn y grŵp wedi aros gyda'i gofalwyr maeth, roedd hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag egwyddor 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae'n disgwyl i fynd i'r brifysgol y flwyddyn nesaf a siaradodd yn llawn edmygedd am y gefnogaeth, y gofal a'r anogaeth a gafodd.

Dyma negeseuon allweddol y bobl ifanc:

- Rhowch gyfle i bobl ifanc wneud camgymeriadau, mae gadael gofal yn brofiad brawychus ac efallai y byddwn ni eisiau gadael a dychwelyd, felly cynlluniwch ar gyfer hynny, ni ddylai fod yn sefyllfa anhyblyg o gael popeth neu ddim byd o gwbl.
- Mae gofalwyr maeth yn wych, ond dydyn nhw fyth yn cymryd lle ein teuluoedd go iawn. Felly, peidiwch ag anghofio hynny, oherwydd mae'n rhywbeth nad ydyn ni'n ei anghofio pan ddaw'r amser i ni adael gofal.
- Dysgwch ni sut i wneud y pethau symlaf yr ydych yn eu cymryd yn ganiataol; pethau megis beth yw 'rhyddhau'r aer o reiddiadur' yn ei olygu. Rhywbeth sy'n ddefnyddiol iawn pan fyddwch chi'n byw ar eich pen eich hun mewn fflat ac mae'ch system wresogi yn torri. Mae hynny'n swnio fel peth gwirion i ddweud wrth rywun am ei wneud.
- Cofiwch wneud penderfyniadau gyda ni. A phan fyddwn ni wedi drysu, gwnewch nhw ar ein cyfer ni, yn yr un modd y byddai eich rhieni go iawn yn ei wneud. Mae arnon ni eich angen chi er nad ydyn ni bob amser yn meddwl hynny ar y pryd.
- Peidiwch ag anghofio unwaith y bydda' i wedi gadael gofal, does gen i neb i ofyn am fy hanes i a beth ddigwyddodd i mi ar adegau penodol. Felly, dywedwch y gwir wrthon ni am stori ein bywydau, dywedwch hi yn blwmp ac yn blaen!
- Helpwch ni i lwyddo, gwnewch yn siŵr nad ydyn ni'n sefyllian. Mae prentisiaethau'n gyfle gwych i ni, ond trefnwch nhw ar ein cyfer – peidiwch â siarad amdanynt nhw'n unig.
- Gwnewch yn siŵr ein bod yn gwybod pryd y bydd pethau'n dechrau mewn gwirionedd (prentisiaethau, addysg bellach, gwaith neu brifysgol) i sicrhau nad addewidion na fyddan nhw'n cael eu gwireddu yn unig ydyn nhw.
- Cofiwch y pethau da rydyn ni'n eu cyflawni a helpwch ni i'w cofio, nid yr holl gamgymeriadau rydyn ni'n eu gwneud yn unig.
- Gadewch i ni aros gyda'n gofalwyr maeth nes ei bod yr adeg gywir i adael, yn union fel sy'n digwydd gyda'u plant eu hunain.
- Chwarddwch gyda ni, neu mae bywyd yn ormod o fwrn!

Proses adolygu ymarfer plant

Proses adolygu ymarfer plant

Ystyriwyd yr achos gan is-grŵp adolygu ymarfer plant CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 2015. Yn sgil hyn, cytunodd Bwrdd CYSUR y dylid cynnull fforwm proffesiynol amlasiantaethol (MAPF). Cynullwyd y fforwm gan yr awdurdod lleol yr oedd Plentyn A wedi derbyn

CYSUR 4/2017 Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

gofal ynddo. Lluniwyd adroddiad ym mis Hydref 2016. Serch hynny, mynegodd y rhieni a oedd wedi mabwysiadu Plentyn A eu hanfodlonrwydd llwyr gyda'r broses MAPF a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol. Yn sgil adolygiad mewnol o'r broses gan Fwrdd CYSUR, penderfynwyd comisiynu adolygiad ymarfer plant estynedig annibynnol.

Adolygydd allanol: Anne Coyle, Ymgynghorydd Annibynnol a Gomisiynwyd

Adolygydd mewnol: Frances Lewis, Rheolwr Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau Plant

Cadeirydd y panel: Ditectif Uwcharolygydd Anthony Griffiths, yr heddlu

Roedd y panel adolygu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau a ganlyn:

- Gwasanaethau Plant yr ALI
- Gwasanaethau i Oedolion yr ALI
- Yr heddlu
- Iechyd
- Addysg
- Asiantaeth gofal maeth annibynnol

Cyfarfu'r Panel yn rheolaidd i adolygu'r wybodaeth amlasiantaeth ac i ddarparu dadansoddiad i gefnogi datblygiad yr adroddiad.

Digwyddiad dysgu

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu ym mis Tachwedd 2017, sef digwyddiad i ymarferwyr a digwyddiad i reolwyr.

Mynychwyd y digwyddiad dysgu i ymarferwyr gan yr asiantaethau a ganlyn:

- Gwasanaethau Plant yr ALI
- Gwasanaethau i Oedolion yr ALI
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Iechyd
- Ysgol
- Gwasanaeth eirioli pobl ifanc
- Asiantaeth gofal maeth annibynnol
- Yr heddlu
- Addysg

Mynychwyd y digwyddiad dysgu i reolwyr gan yr asiantaethau a ganlyn:

- Gwasanaethau Plant yr ALI
- Gwasanaethau i Oedolion yr ALI
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Iechyd
- Ysgol
- Gwasanaeth eirioli pobl ifanc
- Asiantaeth gofal maeth annibynnol
- Yr heddlu
- Addysg




Hysbyswyd aelodau'r teulu

Ymgysylltodd yr adolygwyr â gofalmwyr maeth a'r rhieni a oedd wedi mabwysiadu Plentyn A gydol y broses adolygu i sicrhau bod eu barn a'u teimladau hwythau'n cael eu hystyried wrth lunio'r adroddiad hwn. Cyfrannwyd eu barn yn y ddau ddigwyddiad dysgu hefyd.

A wrthododd y teulu gymryd rhan yn y digwyddiad?: Naddo

CYSUR 4/2017 Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Datganiad gan yr Adolygydd(wyr)			
Adolygydd 1	Anne Coyle	Adolygydd 2	Frances Lewis
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>	
Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:		Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig. Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig. Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl. 	
Adolygydd 1 (Llofnod)		Adolygydd 2 (Llofnod)	
Enw (Enw mewn llythrennau bras)	Anne Coyle	Enw (Enw mewn llythrennau bras)	Frances Lewis
Dyddiad	25 Ionawr 2018	Dyddiad	25 Ionawr 2018
Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)			
Enw (Mewn llythrennau bras)	Ditectif Uwcharolygydd Anthony Griffiths		
Dyddiad	25 Ionawr 2018		
At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig			
Dyddiad derbyn yr wybodaeth:(dyddiad)			
Llythyr cydnabod wedi'i anfon at gadeirydd y bwrdd:(dyddiad)			
Dosbarthwyd i'r arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol:(dyddiad)			
Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi			
Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi			

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 4/2017 (AYPE)

Tasgau craidd:

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chatau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chatau gweithredu er budd pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol cynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

Ar gyfer yr adolygiad estynedig hwn – yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol, neu hanes am y plentyn a/neu aelodau'r teulu, yn hysbys ac wedi'i ystyried wrth asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- A oedd y cynllun gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal a'r cynllun llwybr yn gadarn ac yn briodol i'r plentyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- Effeithiolrwydd cynllunio pontio
- A gafodd y cynllun ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. A wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at ddatblygu'r cynllun amlasiantaeth a'i roi ar waith?
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham? I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif o ran effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn deilliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn. A gafodd protocol ar gyfer datrys anghydfod ei ddefnyddio.
- A gafodd dyletswyddau statudol priodol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys ystyried materion trefniadol a materion eraill yn ymwneud â'r cyd-destun.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau wrth lunio adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd eisoes.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol am adolygwyr annibynnol ac aelodaeth y panel
- Cynhyrchu llinell amser unol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai sydd am fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio trefniadau cyswllt yr adolygwyr ag unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

CYSUR 4/2017 Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i Is-grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn cadw at egwyddorion *Deddf Diogelu Data 1998*¹⁴ wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

Tasgau penodol is-grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant:

- Cytuno a chymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu'r Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y bwrdd.

Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:

- Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y bwrdd wedi comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant.
- Bydd yn cadw at amserlenni ar gyfer ei gwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Cael yr adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant terfynol a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol..
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddi-ddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu. Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth wrth bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol. Bydd datganiad cyfrinachedd yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir, fel a ganlyn:
- Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.
- Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig.
- Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.

¹⁴ [Egwyddorion allweddol](#) y *Ddeddf Diogelu Data 1998*.

CYSUR 4/2017 Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

- Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at Reolwr Busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.